GOLFF CYMRU WALES GOLF

# Gêm i Bawb

Ein gyriant strategol ar gyfer golff yng Nghymru

2023-2028



# Cynnwys


**Ein Strategaeth 2023-2028**

Croeso 5
Ciplun o Golff yng Nghymru 6
Ein Fframwaith Strategol 7
Ein Gweledigaeth, Pwrpas a Gwerthoedd 8

**Ein Pileri, Nodau, Gweithrediadau a Chanlyniadau**

1. Llunio'r Dyfodol 10-13
2. Ymgysylltiad gyda Chlybiau a Chwaraewyr 14-17
3. Cystadlaethau 18-19
4. Perfformiad Uchel 20-23
5. Datblygiad Cyfundrefnol 24-27

**Ein Pwrpas a Ffyrdd o Weithio**

Olrhain ein Cynnydd ac Effaith 28
Ein Dull a Ffyrdd o Weithio 29
Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio 30




# Ein Strategaeth

2023-2028






## Croeso

### Gêm i Bawb yw ein strategaeth pum mlynedd, a cham pellach o ran datblygu a moderneiddio golff yng Nghymru.



Diolch i'r cynllun lefel uchel yma, rydym yn dymuno symud Golff Cymru a'r gêm ymlaen, drwy arwain mewn ffordd feiddgar a chlir, gan adeiladu ar gynnydd y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli pennod gyffrous i golff yng Nghymru. Rydym yn gadarn o'r farn y bydd ei gweithredu yn cryfhau ymhellach y berthynas rhwng Golff Cymru a'i randdeiliaid, yn galluogi chwaraewyr, clybiau, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid i gydweithio er budd y gêm.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer golff yng Nghymru - Gêm i Bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd.

Hannah McAllister – Prif Weithredwr

# Ciplun o Golff yng Nghymru Ein Fframwaith Strategol

## Y Prif Ffigurau

**88,000**
o bobl yn golffio yng Nghymru.

**53,682**
o aelodau clwb.

**470,764**
o rowndiau cystadleuol wedi'u chwarae yn 2022.

## Gwybodaeth am Golff Cymru

**17**
aelod o staff.

**142**
o glybiau yn aelodau.

**43**
Chwaraewr mewn Rhaglenni Perfformiad Uchel

**35**
o dwrnameintiau yn rhedeg dros y flwyddyn galendr.

**55**
o glybiau wedi rhedeg cynlluniau New2Golff yn 2022.

**150**
o Wirfoddolwyr Golff Cymru.

**31,600**
o chwaraewr wedi cofrestru ar borth Golff Cymru.

**22,861**
o bobl yn defnyddio'r Ap.

**17,715**
o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Profiad

**9.1/10**
Boddhad Clwb Golff gyda Golff Cymru.

**7.9/10**
Boddhad chwaraewyr gyda'u profiad cyffredinol o golff.

**80%**
o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi cadw'n heini fel un o'r 3 mantais pennaf o chwarae golff.

**61%**
o ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi'r 'agwedd gymdeithasol - hunan hyder, hunan-barch, gwneud ffrindiau, cyfarfod pobl' - fel y 3 mantais pennaf o chwarae golff.



# Ein Fframwaith Strategol

Mae ein fframwaith strategol yn diffinio ac yn egluro ein pileri strategol sy'n cefnogi ein gweledigaeth tymor hir ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi sut byddwn yn gweithio, ac yn gweithredu fel y llwybr i lwyddiant wrth ymdrin â heriau dydd i ddydd. Bydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau.

**Gweledigaeth**
Gêm i Bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd

**Pwrpas**
I sicrhau bod golff yn gamp sy'n ffynnu yn awr ac i'r dyfodol

**Gwerthoedd**

Hwyl | Real | Cynhwysol | Cydweithredol | Rhagoriaeth

**Pileri Strategol**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| **Llunio'r Dyfodol** | **Ymgysylltiad gyda Chlybiau a Chwaraewyr** | **Cystadlaethau** | **Perfformiad Uchel** | **Datblygiad Cyfundrefnol** |
| Gêm gynhwysol a hygyrch i bawb | Cefnogaeth ragweithiol ac o ansawdd uchel i glybiau a chwaraewyr | Cyfleoedd cynhwysol a chystadleuol i bawb | Datblygu talent i ennill ar lwyfan y byd drwy amgylchedd sy'n ysbrydoli | Sefydliad cynaliadwy wrth galon golff yng Nghymru |

**Nodau**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd a phresennol a'u hysbrydoli<br>Annog chwaraewyr iau i gymryd rhan<br>Cynyddu'r nifer o ferched a genethod sy'n cymryd rhan<br>Datblygu strategaeth gyfleusterau ar gyfer y gêm yng Nghymru | Darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i glybiau<br>Cynorthwyo clybiau i dyfu rhwydwaith amrywiol o wirfoddolwyr<br>Darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i golffwyr<br>Hybu amgylchedd a strwythurau llywodraethu rhagorol a chynhwysol | Darparu cyfleoedd cystadlu cynhwysol a chystadleuol drwy ddigwyddiadau rhagorol | Gwella datblygiad ein rhaglen berfformio dosbarth uchel<br>Diffinio a datblygu'r llwybr i Berfformiad Uchel<br>Cyflawni llwyddiant rhyngwladol | Arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn<br>Adeiladu ymwybyddiaeth o rôl a gwasanaethau Golff Cymru drwy gyfathrebu effeithiol<br>Creu sefydliad cynaliadwy, effeithiol, ac un sy'n edrych ymlaen at gefnogi datblygiad y gêm |

# Ein Gweledigaeth, Pwrpas a Gwerthoedd

## Ein gweledigaeth

**Gêm i bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd.**

Mae golff yn gamp sy'n dod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Mae pawb o bob oedran a chefndir yn mwynhau.

Gêm gyda manteision iechyd a lles cydnabyddedig, yn cyfoethogi ac yn trawsnewid bywydau er gwell.

Mae golff yn gêm i bawb. Am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd

## Ein Pwrpas

**I sicrhau sefyllfa golff fel camp sy'n ffynnu yn awr ac i'r dyfodol.**

Wedi'i sefydlu i arwain golff yng Nghymru, rydym yn gyfrifol am ddatblygiad parhaus y gêm.

Ein rôl yw parchu traddodiadau a hanes y gamp ac annog pobl a chymunedau drwy greu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i bawb.

Rydym yn anelu at weithio ag aelodau a phartneriaid ar bob lefel i ddiogelu sefyllfa golff fel camp sy'n ffynnu i'w fwynhau gan bawb, yn awr ac i'r dyfodol.

## Ein Gwerthoedd

**Hwyl • Real • Cynhwysol • Cydweithredol • Rhagoriaeth**

Yn Golff Cymru, rydym wastad wedi ymrwymo i set o werthoedd craidd: maent yn diffinio pwy ydym ni, sut yr ydym yn rhedeg y sefydliad a'r gêm yng Nghymru. Rydym yn byw'r gwerthoedd yma bob dydd ac maent yn rhoi arweiniad i'n holl benderfyniadau, y rhai mawr a'r rhai bach. Mae'r penderfyniadau yma yn siapio ac yn diffinio brand Golff Cymru: un y bydd ein holl aelodau, partneriaid a chyfranogwyr yn tyfu i barchu ac ymddiried ynddo.


















# Ein Pileri, Nodau, Gweithrediadau a Chanlyniadau



# 1. Llunio'r Dyfodol

Gêm gynhwysol a hygyrch i bawb.



## **Nod:** Ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd a phresennol a'u hysbrydoli

### Gweithrediadau allweddol

- Datblygu rhaglenni a mentrau ar gyfer holl gynulleidfaoedd gan gynnwys grwpiau newydd a rhai sy'n cael eu tangynrychioli.
- Annog mabwysiadu dulliau annhraddodiadol a byrrach ar gyfer y gêm.
- Tynnu sylw cynulleidfaoedd newydd a phresennol at fanteision iechyd a theuluol golff.
- Gwneud mwy o gyfleoedd yn gysylltiedig â digwyddiadau golff proffil uchel yng Nghymru, yn broffesiynol ac amatur.
- Ymgysylltu gyda golffwyr nad ydynt yn aelodau clwb drwy'r Cynllun 'Flexi Club'.
- Gwneud y gêm yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd cyfyngol.




### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Cynnal lefelau cymryd rhan cyffredinol.
- Cynyddu'r nifer o rowndiau golff sy'n cael eu chwarae (mewn cystadlaethau a chwarae cyffredinol).
- Tyfu aelodau 'Flexi Club' yn sylweddol.
- Cynyddu'r ganran cynrychiolaeth o gymunedau ethnig amrywiol sy'n chwarae'r gêm.
- Cynyddu'r ganran gynrychioliadol o bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd cyfyngol sy'n chwarae'r gêm.

# **Nod:** Annog chwaraewyr iau i gymryd rhan

### Gweithrediadau allweddol

- Cydweithio ag ysgolion, rhwydweithiau cymunedol, a chyrff sector gyhoeddus i fod yn agored i gyfleoedd y gall golff ei gynnig i blant a phobl ifanc.
- Recriwtio a hyfforddi Hyfforddwyr Golff Cymunedol.
- Datblygu a hybu rhaglen a llwybr sicrwydd ansawdd ar gyfer chwaraewyr iau.
- Cefnogi mwy o glybiau i sefydlu rhaglenni ar gyfer chwaraewyr iau i ffynnu.
- Sefydlu Panel Ieuenctid i gael barn newydd a helpu i ymgysylltu gyda phobl ifanc.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Llwybr clir a hygyrch ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cynnydd yng nghysylltiadau clwb a chymunedol.
- Rhwydwaith mwy ac amrywiol o hyfforddwyr wedi'u hyfforddi.
- Cynyddu yn nifer y chwaraewyr iau sy'n cymryd rhan ac sy'n aelodau.
- Cynnydd yn nifer y rowndiau sy'n cael eu chwarae gan golffwyr iau (mewn cystadlaethau ac wrth chwarae yn gyffredinol).
- Cynyddu'r nifer o chwaraewyr iau gyda handicap golff.
- Cynyddu'r nifer o chwaraewyr iau sy'n cymryd rhan yn Golff Cymru a digwyddiadau sir.
- Panel Ieuenctid gweithgar sy'n cyfrannu at ddyfodol y gêm.





# **Nod:** Cynyddu'r nifer o ferched a genethod sy'n cymryd rhan

### Gweithrediadau allweddol

- Gwella rhaglenni recriwtio a chadw ar gyfer merched a genethod.
- Gweithio gyda chlybiau a chyfleusterau i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer merched a genethod.
- Gwneud golff yn gamp sy'n apelio i ferched a genethod drwy waith marchnata a phartneriaeth.
- Gwneud y mwyaf o effaith y Siarter Merched mewn Golff.
- Hybu a chefnogi merched mewn swyddi arweinyddiaeth o fewn clybiau.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Cynyddu boddhad cwsmer gyda rhaglenni recriwtio a chadw Golff Cymru.
- Cynyddu'r nifer o ferched a genethod sy'n aelodau clwb, aelodau 'Flexi Club' neu'n gyfranogwyr.
- Cynyddu'r nifer o rowndiau golff sy'n cael eu chwarae gan ferched a genethod (mewn cystadlaethau ac wrth chwarae yn gyffredinol).
- Cynyddu'r nifer o glybiau sy'n ymrwymo ac sy'n derbyn Siarter Merched mewn Golff.
- Cynyddu'r ganran o ferched mewn swyddi arweinyddiaeth o fewn clybiau.

# **Nod:** Datblygu strategaeth gyfleusterau ar gyfer y gêm yng Nghymru



### Gweithrediadau allweddol

- Cynnal adolygiad ledled y wlad i ganfod pa gyfleusterau sydd eu hangen i gefnogi holl agweddau o'r gêm o ddarpariaeth gymunedol i Berfformiad Uchel.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Datblygu a chyflawni strategaeth gyfleusterau
- Cynnal ein gallu i gynorthwyo clybiau i gael buddsoddiad allanol ar gyfer cyfleusterau.
- Cynyddu cyfleusterau hygyrch ac addas at y diben.

# 2. Ymgysylltu Clybiau a Chwaraewyr

Cymorth rhagweithiol ac o ansawdd uchel i glybiau a chwaraewyr.





## **Nod:** Darparu cefnogaeth clwb o ansawdd uchel

### Gweithrediadau allweddol

- Cynorthwyo clybiau i recriwtio a chadw aelodau.
- Cynorthwyo clybiau i gael grantiau a chyllid.
- Darparu addysg o ansawdd uchel a gwasanaethau cefnogi ar sail anghenion unigol pob clwb.
- Lansio adnodd a phlatfform addysg ar-lein.
- Rheoli System Handicap y Byd (World Handicap System - WHS) a darparu cymorth priodol i glybiau.
- Cyflwyno systemau a thechnolegau i wella gwasanaethau Golff Cymru i glybiau.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Cadw enillion cryf diweddar yn aelodaeth clwb yn gyffredinol gyda chynlluniau ar waith ar gyfer twf tymor hir pellach.
- Cynyddu'r nifer o glybiau sy'n cael cymorth i wneud ceisiadau am grant a chyllid.
- Cynnal arolwg clwb ddwywaith bob blwyddyn.
- Cynnal lefelau uchel o foddhad clwb gyda gwasanaethau Golff Cymru.
- Llawer iawn yn mabwysiadu hwb adnodd a phlatfform addysg ar-lein
- Cynyddu'r clybiau sy'n defnyddio'r offeryn gwiriad iechyd clwb.
- Aelodau staff clwb yn ymgysylltu yn rheolaidd gyda Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

## **Nod:** Cynorthwyo clybiau i dyfu rhwydwaith amrywiol o wirfoddolwyr

### Gweithrediadau allweddol

- Gweithio gyda chlybiau i'w cynorthwyo i recriwtio a chadw mwy o wirfoddolwyr a datblygu dulliau wedi'u targedu i recriwtio gwirfoddolwyr iau a mwy amrywiol.
- Creu cyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr clwb.
- Lansio a chefnogi Gwobr Flynyddol ar gyfer Gwirfoddolwr

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Rhwydwaith mwy gyda mwy o amrywiaeth o wirfoddolwyr a hyfforddwyr clwb wedi'u hyfforddi.
- Datblygu adnoddau hyfforddiant ac addysg ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Darparu cyfle i glybiau i adnabod gwaith ar gyfer eu gwirfoddolwyr.





Ymgysylltu Clybiau a Chwaraewyr

## **Nod:** Darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i golffwyr

### Gweithrediadau allweddol

- Adolygu'r siarter cwsmer a sicrhau lefel uchel o wasanaeth i golffwyr.
- Darparu cymorth effeithiol ac effeithlon i chwaraewyr drwy fabwysiadu technoleg.
- Darparu adnoddau addysgiadol i golffwyr.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Boddhad chwaraewyr uwch wrth ryngweithio gyda Golff Cymru.
- Gwybodaeth ar gael yn rhwydd i helpu ateb cwestiynau gan golffwyr.
- Ymateb cynt i ymholiadau gan golffwyr.


## **Nod:** Hybu amgylchedd a strwythurau llywodraethu rhagorol a chynhwysol

### Gweithrediadau allweddol

- Helpu clybiau i greu amgylchedd bywiog a chroesawgar sy'n cynrychioli ac yn cynnwys y gymuned gyfan.
- Cynorthwyo clybiau gyda chyfathrebiadau sy'n apelio at y gymuned leol ehangach.
- Cynnig barn a chanllaw i glybiau ar strwythurau ac egwyddorion llywodraethu effeithiol.
- Helpu clybiau i fod yn fwy strategol a chryf drwy ddatblygu a chefnogi strategaethau clwb.
- Darparu fframwaith cynaliadwy ar gyfer golffwyr yng Nghymru sy'n cefnogi clybiau gyda'u huchelgeisiau cynaliadwy.
- Darparu casgliad o adnoddau hyrwyddo clwb.


### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Enghreifftiau o glybiau golff yn rhan annatod a gweladwy o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Cynnydd yn y nifer o glybiau sy'n adolygu ac yn datblygu eu strwythurau ac arferion llywodraethu.
- Cynnydd yn y nifer o glybiau sy'n defnyddio'r Sefydliad Amgylchedd Golff (Golf Environment Organisation- GEO) a'r rhaglen 'OnCourse'.
- Cynnydd yn y nifer o glybiau gyda chynlluniau strategol ar waith.



# 3. Cystadlaethau

## Cyfleoedd cynhwysol a chystadleuol i bawb.






## **Nod:** Darparu cyfleoedd cystadlu cynhwysol a chystadleuol drwy ddigwyddiadau rhagorol

### Gweithrediadau allweddol

- Adolygu'r amserlen gystadlu fel ei fod yn parhau i fod yn gynhwysol i chwaraewyr o bob oed a chefndir.
- Defnyddio barn i addasu ein harlwy i wneud ein cystadlaethau ar lefel clwb yn ddeniadol i glybiau ac aelodau Cymru.
- Codi proffil cystadlaethau Golff Cymru drwy hybu priodol.
- Darparu holl gystadlaethau yn erbyn eu nodau ac i safonau gweithredu sydd wedi'u cytuno i greu profiadau cadarnhaol sy'n aros yn y cof.
- Gweithredu dull wedi'i strwythuro a chynaliadwy i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i gyfoethogi ein cystadlaethau.
- Ymgysylltu gyda chlybiau a siroedd sy'n cynnal digwyddiadau rhanbarthol.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Digwyddiadau cynhwysol yn cael eu cefnogi gan Golff Cymru yn y tymor hir.
- Sicrhau bod niferoedd da yn cofrestru ar draws pob cystadlaeath.
- Cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan o glybiau yng Nghymru ac aelodau clwb.
- Denu chwaraewyr amatur o ansawdd uchel o'r DU a chwaraewyr rhyngwladol i bencampwriaethau elît i arddangos golff yng Nghymru.
- Cyflawni cyfraddau boddhad chwaraewyr uchel.
- Tîm wedi'u hyfforddi'n dda a thîm arbennig o ysgogiadol o wirfoddolwyr pencampwriaeth ar draws Cymru.
- Cynyddu gwirfoddolwyr benywaidd sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau Golff Cymru.
- Amserlen cystadlu wedi'i chydlynu'n dda a'i chyhoeddi ym mhob rhan o Gymru.

# 4. Perfformiad Uchel

Datblygu talent i ennill ar lwyfan y byd drwy amgylchedd sy'n ysbrydoli.






## **Nod:** Gwella datblygiad ein rhaglen berfformio dosbarth uchel

### Gweithrediadau allweddol

- Adolygu'n rheoliad a symud y rhaglen Perfformiad Uchel ymlaen i gyflawni ar berfformiad mewn meysydd blaenoriaeth.
- Gwella safonau a phrofiadau drwy gefnogi darparu Cynlluniau Perfformiad Uchel clir ar gyfer unigolion.
- Gwella cyswllt a chydweithio o fewn y tîm Perfformiad Uchel i optimeiddio datblygiad chwaraewyr.
- Defnyddio technoleg a dull ar sail tystiolaeth i wella effeithlonrwydd a phenderfyniadau.
- Cynnal a gwella diwylliant Perfformio Uchel integredig, arloesol ac ysbrydoledig.
- Cynllunio a chyflawni proses rheoli perfformiad sy'n denu ac yn cadw tîm Perfformiad Uchel rhagorol.
- Gwella perthnasau gyda chlybiau a chyfleusterau eraill i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i chwaraewyr i gael mynediad at y gêm yn lleol ac ymarfer.
- Cyflawni ein cyfrifoldebau allweddol, gan gynnwys Asiantaeth Atal Defnyddio Cyffuriau'r DU (UK Anti-Doping - UKAD) a diogelu.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Amcanion wedi'u diffinio a chanlyniadau dysgu o'r Rhaglen Perfformiad Uchel.
- Gwella cynlluniau perfformiad chwaraewyr.
- Cyfleoedd dysgu carlam ar gyfer rhanddeiliaid rhagweithiol.
- Prosesau wedi'u diffinio i gefnogi ymddygiadau cyson gan chwaraewyr a'r tîm Perfformiad Uchel.
- Cydymffurfio gyda pholisïau a rheoliadau gofynnol.

Perfformiad Uchel

# Nod: Diffinio a datblygu'r llwybr i Berfformiad Uchel

### Gweithrediadau allweddol

- Cydweithio ag adrannau eraill i siapio mentrau a gwneud y mwyaf o adnoddau i alinio i ddatblygu talent y dyfodol.
- Ymgysylltu gyda chlybiau a siroedd i hysbysu hyfforddi, cystadlu a strwythurau tîm.
- Egluro a diffinio pwrpas ac amcanion pob cydran yn y llwybr.
- Datblygu a darparu rhaglen addysgu hyfforddiant difyr gyda phwyslais ar brofiad, cynnwys a symud ymlaen i hyfforddi ar lefel perfformiad uchel.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Llwybr chwaraewyr wedi'i ddiffinio'n eglur yn cael ei rannu gyda chwaraewyr a'u rhwydweithiau cefnogol.
- Cynnydd yn yr ymgysylltiad gyda chlybiau a siroedd yn adnabod ac yn atgyfnerthu eu rôl yn llwybr y chwaraewr.
- Cynyddu ymwybyddiaeth chwaraewyr a'u rhwydweithiau cefnogol o'r llwybr, a safonau camu ymlaen.
- Cynnydd yn y nifer o hyfforddwyr ar sail perfformiad ym mhob rhan o Gymru.





Perfformiad Uchel



# Nod: Cyflawni llwyddiant

### Gweithrediadau allweddol

- Ceisio a chynnig cyfleoedd cystadlu rhyngwladol priodol.
- Gwella gallu chwaraewyr i reoli amserlenni twrnameint sy'n cyd-fynd gyda chynnydd yn y tymor hir.
- Blaenoriaethu adnoddau at ganlyniadau digwyddiadau wedi'u targedu.
- Darparu dull cyson a strwythuredig sy'n cryfhau gallu timau cenedlaethol i berfformio yn dda mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr.
- Adolygu a mireinio'n barhaus y polisïau dewis i sicrhau eu bod yn addas at y diben.
- Cyflwyno dull wedi'i strwythuro a chynaliadwy at recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Yn yr 8 uchaf ym Mhencampwriaeth Tîm Ewropeaidd ac yn yr 16 uchaf ym Mhencampwriaethau Tîm Amatur y Byd.
- Ennill mewn digwyddiadau unigol rhyngwladol mawr.
- Gwella chwaraewyr o Gymru yn y 'World Amateur Golf Ranking' (WAGR).
- Dull cyson o ran digwyddiadau tîm rhyngwladol.
- Gwirfoddolwyr gwybodus a brwdfrydig i gynorthwyo hyfforddwyr mewn digwyddiadau rhyngwladol.

# 5. Datblygiad Cyfundrefnol

Sefydliad cynaliadwy sydd wrth galon golff yng Nghymru.





## **Nod:** Arweinyddiaeth a llywodraethu

### Gweithrediadau allweddol

- Cynnal Bwrdd amrywiol, ar sail sgiliau sydd gan berthynas glir gyda'r tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun strategol.
- Diwallu gofynion Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Chwaraeon Cymru drwy gyflawni argymhellion yr adolygiadau blynyddol.
- Cynnal sefyllfa ariannol gadarn gyda rheolaethau ariannol priodol.
- Darparu arweinyddiaeth mewn meysydd craidd gan gynnwys diogelu a chydraddoldeb.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Cyflawni cynllun strategol Golff Cymru.
- Cyflawni cydymffurfio parhaus gyda Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Chwaraeon Cymru.
- Rheolaethau ariannol cadarn i ddiogelu asedau'r cwmni.
- Camp ddiogel a chynhwysol: cynnal lefel uchel o achrediadau.



Datblygiad Cyfundrefnol

## **Nod:** Adeiladu ymwybyddiaeth o rôl a gwasanaethau Golff Cymru drwy gyfathrebu effeithiol

### Gweithrediadau allweddol

- Adolygu'r dull gofynnol i sicrhau cyfathrebu effeithiol.
- Datblygu a rhoi cynllun cyfathrebu ar waith i ymgysylltu gyda holl randdeiliaid.
- Datblygu dull clir o ran materion cyhoeddus sy'n cefnogi'r gêm.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Darparu gwybodaeth gyson a phriodol i glybiau golff.
- Cynyddu ymwybyddiaeth chwaraewyr am strategaeth a rôl Golff Cymru.
- Cynyddu ymgysylltiad chwaraewyr gyda Golff Cymru drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a'i wefan.
- Cynyddu'r nifer o chwaraewyr sy'n cofrestru ar Borth Golff Cymru, sy'n lawrlwytho'r Ap ac yn cael cyfathrebiadau.
- Cryfhau proffil ac enw da'r sefydliad a'r gamp gyda gwneuthurwyr polisi.



Datblygiad Cyfundrefnol

## **Nod:** Creu sefydliad cynaliadwy, effeithiol, ac un sy'n edrych ymlaen at gefnogi datblygiad y gêm

### Gweithrediadau allweddol

- Cynnal ac adeiladu perthnasau cryf gyda phrif bartneriaid y diwydiant.
- Ail fuddsoddi yn y gêm yng Nghymru drwy wneud y mwyaf o botensial cyllid a sicrhau ystod ehangach o ffrydiau incwm ar gyfer Golff Cymru.
- Creu gwasanaethau mwy effeithiol drwy fuddsoddi mewn systemau a thechnoleg.
- Cyflwyno cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer bob adran i helpu cyflawni'r strategaeth.
- Adolygu, a lle mae angen, diweddaru gwasanaethau fel eu bod dal yn berthnasol ac yn diwallu gofynion rhanddeiliaid.
- Rhoi cyfleoedd hyfforddiant a datblygu priodol i staff a chefnogi eu llesiant.
- Codi ymwybyddiaeth o werthoedd Golff Cymru a sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Cydweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu cynaliadwy gyda chanlyniadau mesuradwy.
- Ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng ngweithgarwch Golff Cymru.

### Canlyniadau wedi'u cynllunio

- Mwy o wytnwch yn ffrydiau incwm Golff Cymru.
- Canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion y cynllun strategol.
- Tîm staff perfformiad uchel sydd wedi'i ysgogi gyda chyfraddau cadw staff a boddhad rôl da.
- Cydnabyddiaeth eang ymhlith rhanddeiliaid o werthoedd Golff Cymru.
- Cyflawni gwelliannau cynaliadwy mesuradwy.
- Cynnydd mesuradwy yn y defnydd o'r Gymraeg gan Golff Cymru.



# Olrhain ein Cynnydd ac Effaith

Gan weithio i gyflawni'r pum maes allweddol, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effaith ein prosiectau a mentrau gyda mesurau meintiol ac ansoddol.  Mae'r canlynol yn rhoi syniad o'r dangosyddion yma.

### Llunio'r dyfodol

- Nifer aelodau clwb: yn gyffredinol, iau a benywaidd.
- Cymryd rhan yn gyffredinol yn cael ei fesur gan yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru ac Arolwg Chwaraeon Cymru o Chwaraeon mewn Ysgolion.

### Ymgysylltu gyda Chlybiau a Chwaraewyr

- Sgôr boddhad chwaraewyr ar gyfer ymgysylltu gyda Golff Cymru.
- Sgôr boddhad clybiau ar gyfer ymgysylltu gyda Golff Cymru.
- Ymgysylltu â'r canlynol ar draws llwyfannau gwahanol.

### Cystadlaethau

- Nifer y chwaraewyr sy'n cofrestru mewn cystadlaethau.
- Sgôr boddhad chwaraewyr.

### Perfformiad Uchel

- Perfformiad tîm ym Mhencampwriaethau Ewropeaidd a Thîm Amatur y Byd.
- Safle yn Golff Amatur y Byd o ran y chwaraewyr gwrywaidd a benywaidd uchaf.
- Perfformiad unigol mewn cystadlaethau rhyngwladol mawr.
- Boddhad chwaraewyr gyda'r Rhaglen Perfformiad Uchel.

### Datblygiad Cyfundrefnol

- Perfformaid yn erbyn y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Cymru.
- Cryfder ariannol yn cael ei fesur drwy ledaeniad refeniw a chryfder y fantolen.
- Boddhad staff blynyddol.



# Ein dull a ffyrdd o weithio

## Ein dull

Yn ymestyn allan at bob agwedd ar y gêm, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i siapio dyfodol golff yng Nghymru. Dim ond drwy weithio fel tîm gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid y byddwn yn cyrraedd ein gweledigaeth ar gyfer golff yng Nghymru.

**01 Adolygu** agendâu polisi, ymchwil y gorffennol a gwersi sydd wedi'u dysgu o'r cylch strategol diwethaf, ac ystyried potensial ac archwaeth ar gyfer technolegau a ffurfiau newydd i dyfu'r



**02 Ymgysylltu** ag unigolion, grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn cymryd rhan a rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y gêm drwy arolygon, cyfweliadau, grwpiau ffocws a sgyrsiau.



**03 Llunio** a hwyluso cyfarfodydd dilynol a thrafodaeth i brofi barn ac adborth.



**04 Gweithredu'r** strategaeth drwy ddatblygu a chyflawni ein cynllun gweithredu blynyddol.




**05 Dysgu** o brofiad drwy olrhain cynnydd ein  gweithrediadau.



# Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio

**Wrth i ni weithio at wireddu ein gweledigaeth, ein dymuniad yw creu gêm gynaliadwy y gall cenedlaethau'r dyfodol ei mwynhau. Rhaid i'n dull esblygu a gwreiddio cynaliadwyedd ym mhob rhan o'n gwaith.**

Integreiddio nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol a ffyrdd o weithio i gyflawni'r strategaeth, byddwn yn ystyried ffactorau amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd drwyddi draw. Bydd dull rhagweithiol, cydweithredol yn annog gweithredu cadarnhaol er lles pawb.

Byddwn yn parhau i ystyried effaith tymor hir ein penderfyniadau ac yn gwella sut yr ydym yn gweithio gyda phobl, cymunedau a phartneriaid. Byddwn yn annog y system eco yn gyfan gwbl i feddwl a gweithredu mewn ffordd gynaliadwy wrth i ni weithio tuag at sicrhau bod golff yn Gêm i Bawb: am hwyl, ar gyfer chwaraeon, am fywyd.



GOLFF CYMRU WALES GOLF

walesgolf.org

GOLFF CYMRU WALES GOLF

@walesgolf

@wales_golf

@walesgolf

www.walesgolf.org